



Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee held on 16 June 2026 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

Councillors Present: Tim Zhou (Chair), Ian Scott, and Martin O'Neill.

Officers Present: Paul Beynon – RFO, Diane Athernought – Finance
Administration Officer and Ian Hughes – CSO

FI2606-01	Apologies: Cllrs Townsend-Jones and Phil Keeton
FI2606-02	Declarations of Interest: None
FI2606-03	Minutes of the Previous Meeting of the Committee To approve the minutes of the meeting held on 16 th March 2026 as a true record. RESOLVED to approve the minutes of the meeting held on 16 th March 2026 as a true record.
FI2606-04	Outstanding Actions from Previous Meeting Outstanding actions outlined by the CSO. RESOLVED outstanding actions updated, and new actions to be recorded in 'outstanding action' report by CSO.
FI2606-05	Budget Monitoring Reports to 30/04/2026 – Paul Beynon, RFO Reports attached. Financial reports prepared by RFO Paul Beynon, had previously been circulated to councillors. No queries regarding these reports were raised prior to the meeting. RESOLVED to defer monitoring reports to later meeting either in July or September 2026.



FI2606-06	Elect Vice Chair for Committee Cllr O'Neill was proposed for the role by Cllr Scott and seconded by Cllr Zhou RESOLVED: Cllr O'Neill appointed as Vice-Chair of The Committee
FI2606-07	Representative for Facilities and Property Committee Cllr Scott was proposed for the role by Cllr O'Neill and seconded by Cllr Zhou RESOLVED: Cllr Scott appointed as the committee's representative to the Facilities and Property Committee.
FI2606-08	Oystermouth Bowls Club Grant Application Grant Application for £800 contribute towards the running costs of Mumbles Bowling Green The Committee noted that Oystermouth Bowls Club would be making a contribution of £1,000 towards RECOMMENDED That a Grant Application to Oystermouth Bowls Club for £800 be awarded to contribute towards the running costs of Mumbles Bowling Green. From Budget FC1 Small and Medium Grants.
FI2606-09	Plunch Lane Allotments Grant Application Grant Application for £1,055.97 to improve the allotment footpath. The Committee noted that whilst the applicant's society were not contributing financially to the improvements, they were intending to commit a substantial amount of their spare time in carrying out the improvements RECOMMENDED That a Grant Application to Plunch Lane Allotments for £1,055.97 be awarded to contribute towards improving the allotment footpath From Budget FC1 Small and Medium Grants



FI2606-10	The Victoria Inn Grant Application Grant Application for £5,250.00 to contribute towards the renovation and restoration of the historic well contained within the Victoria Inn Public House. The Committee believed that the amount sought was a considerable sum and that in the circumstances the grant should be considered by Full Council, particularly in light of only three committee members being present. Whilst the applicants were not contributing financially to the application, their bank accounts were noted. RECOMMENDED To defer this application until July's Meeting of Full Council in order for a collective decision to be made on the grant application.
FI2606-11	Mumbles Life Grant Application Grant Application for £5,000.00 to contribute to a local website for the purpose of promoting local businesses and entertainment opportunities. The Committee believed that the amount sought was a considerable sum and that in the circumstances the grant should be considered by Full Council, particularly in light of only three committee members being present. The applicants had provided a detailed presentation to Full Council in February 2026 and the Council as a whole would be better placed to make a decision on such a substantial amount of money. RECOMMENDED To defer this application until July's Meeting of Full Council in order for a collective decision to be made on the grant application.
FI2606-12	Sculpture by the Sea Grant Application Grant Application for £1,000.00 to contribute towards the Beach Sculpture Festival Project The Committee had previously considered similar applications on behalf of the applicant and were supportive of the work carried out RECOMMENDED That a Grant Application to Sculpture by the Sea for £1,000.00 be awarded to contribute towards the Beach Sculpture Festival Project From Budget FC1 Small and Medium Grants



FI2606-13	Mumbles Rangers Grant Application Grant Application for £1,900.00 to contribute towards the Mumbles Rangers Football Festival The Committee noted that the applicant would be contributing £2,700 towards a festival that continues to become more popular and provides considerable benefits across the community. RECOMMENDED That a Grant Application to Mumbles Rangers for £1,900.00 be awarded to contribute towards the Mumbles Rangers Football Festival From Budget FC1 Small and Medium Grants
FI2606-14	Ostreme Players Grant Application Grant Application for £1,000.00 to provide professional sign language support The Committee believed that this was the first application of its kind for MCC to support those with hearing difficulties. As a promoter of equal opportunities, the committee considered it should support the application. The Committee believed that it would benefit from ascertaining the success of using sign language support, in particular whether this would increase the audience size. The use of sign language support at future events and additional grant funding were also considered RECOMMENDED That a Grant Application to Ostreme Players for £1,000.00 be awarded to provide professional sign language support, subject to the applicant providing feedback on the success of the use of sign language support, specifically the number of people benefiting from the support provided. From Budget FC1 Small and Medium Grants



FI2606-15	Set future dates for committee meetings Due to a conflict of commitments for committee members attending meetings on a Tuesday evening an alternative time was proposed. RECOMMENDED That future meetings of the Finance and Compliance Committee take place on the second Thursday of each month at 6.30pm
------------------	--

Meeting Finished at 7.01.pm

Next meeting: 9th July 2026



**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a
Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026
am 6.30pm
Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy
gyfrwng Teams**

Cynghorwyr yn bresennol: Tim Zhou (Cadeirydd), Ian Scott, a Martin O'Neill.

Swyddogion yn bresennol: Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Diane Athernought – Swyddog Gweinyddu Cyllid, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

FI2606-01	Ymddiheuriadau: Y cynghorwyr Townsend-Jones a Phil Keeton
FI2606-02	Datganiadau o fuddiant: Dim
FI2606-03	Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2026 fel cofnod cywir. PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2026 fel cofnod cywir.
FI2606-04	Camau gweithredu heb eu cwblhau o'r cyfarfod blaenorol Amlinellwyd y camau gweithredu heb eu cwblhau gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau. PENDERFYNWYD diweddarau'r camau gweithredu heb eu cwblhau, a chofnodi camau gweithredu newydd yn yr adroddiad ar 'y camau gweithredu heb eu cwblhau' gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.



FI2606-05	Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 30 Ebrill 2026 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol Yr adroddiadau wedi eu hatodi. Roedd yr adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi eu dosbarthu ymlaen llaw i'r cynghorwyr. Nid oedd unrhyw gwestiynau wedi dod i law ynglŷn â'r adroddiadau hyn cyn y cyfarfod. PENDERFYNWYD gohirio'r adroddiadau monitro i gyfarfod diweddarach, naill ai ym mis Gorffennaf neu ym mis Medi 2026.
FI2606-06	Ethol is-gadeirydd y pwyllgor Cynigiwyd enw'r Cynghorydd O'Neill ar gyfer y rôl gan y Cynghorydd Scott, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Zhou. PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd O'Neill yn is-gadeirydd y pwyllgor.
FI2606-07	Cynrychiolydd ar gyfer y Pwyllgor Cyfleusterau ac Eiddo Cynigiwyd enw'r Cynghorydd Scott ar gyfer y rôl gan y Cynghorydd O'Neill, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Zhou. PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd Scott yn gynrychiolydd y pwyllgor i'r Pwyllgor Cyfleusterau ac Eiddo.
FI2606-08	Cais am grant Clwb Bowlio Ystumllwynarth Cais am grant o £800 i gyfrannu at gostau rhedeg lawnt fowlio'r Mwmbwls Nodwyd gan y pwyllgor y byddai Clwb Bowlio Ystumllwynarth yn gwneud cyfraniad o £1,000. ARGYMHELLWYD bod grant o £800 yn cael ei roi i Glwb Bowlio Ystumllwynarth er mwyn cyfrannu at gostau rhedeg lawnt fowlio'r Mwmbwls. O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.



FI2606-09	Cais am grant Rhandiroedd Lôn Plunch Cais am grant o £1,055.97 i wella llwybr troed y rhandiroedd Nodwyd gan y pwyllgor, er nad oedd cymdeithas y ceisydd yn cyfrannu'n ariannol at y gwelliannau, roeddent yn bwriadu neilltuo cryn dipyn o'u hamser sbâr i gyflawni'r gwelliannau. ARGYMHELLWYD bod grant o £1,055.97 yn cael ei roi i Randiroedd Lôn Plunch er mwyn cyfrannu at wella llwybr troed y rhandiroedd. O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig
FI2606-10	Cais am grant y Victoria Inn Cais am grant o £5,250.00 i gyfrannu at adnewyddu ac adfer ffynnon hanesyddol o fewn tafarn y Victoria Inn Roedd y pwyllgor o'r farn bod y swm a geisiwyd yn swm sylweddol ac, o dan yr amgylchiadau, y dylai'r cyngor llawn ystyried y grant, yn enwedig gan ystyried mai dim ond tri aelod o'r pwyllgor a oedd yn bresennol. Er nad oedd y ceiswyr yn cyfrannu'n ariannol at y cais, nodwyd eu cyfrifon banc. ARGYMHELLWYD gohirio'r cais hwn tan gyfarfod y cyngor llawn ym mis Gorffennaf er mwyn gwneud penderfyniad ar y cyd ar y cais am grant.
FI2606-11	Cais am grant Mumbles.Life Cais am grant o £5,000.00 i gyfrannu at wefan leol at ddiben hyrwyddo busnesau lleol a chyfleoedd adloniant Roedd y pwyllgor o'r farn bod y swm a geisiwyd yn swm sylweddol ac, o dan yr amgylchiadau, y dylai'r cyngor llawn ystyried y grant, yn enwedig gan ystyried mai dim ond tri aelod o'r pwyllgor a oedd yn bresennol. Roedd y ceiswyr wedi rhoi cyflwyniad manwl i'r cyngor llawn ym mis Chwefror 2026, a byddai'r cyngor cyfan mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniad ar swm mor sylweddol o arian. ARGYMHELLWYD gohirio'r cais hwn tan gyfarfod y cyngor llawn ym mis Gorffennaf er mwyn gwneud penderfyniad ar y cyd ar y cais am grant.



FI2606-12	Cais am grant Cerfluniau ar Lan y Môr Cais am grant o £1,000.00 i gyfrannu at brosiect Gŵyl Cerfluniau Traeth Roedd y pwyllgor wedi ystyried ceisiadau tebyg ar ran y ceisydd o'r blaen, ac roedd yr aelodau yn gefnogol i'r gwaith a wnaed. ARGYMHELLWYD bod grant o £1,000.00 yn cael ei roi i Cerfluniau ar Lan y Môr er mwyn cyfrannu at brosiect Gŵyl Cerfluniau Traeth. O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig
FI2606-13	Cais am grant Mumbles Rangers Cais am grant o £1,900.00 i gyfrannu at Ŵyl Bêl-droed Mumbles Rangers Nodwyd gan y pwyllgor y byddai'r ceisydd yn cyfrannu £2,700 tuag at ŵyl a oedd yn parhau i ddod yn fwy poblogaidd, ac yn darparu manteision sylweddol ar draws y gymuned. ARGYMHELLWYD bod grant o £1,900.00 yn cael ei roi i Mumbles Rangers er mwyn cyfrannu at Ŵyl Bêl-droed Mumbles Rangers. O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig
FI2606-14	Cais am grant cwmni theatr Ostreme Players Cais am grant o £1,000.00 i ddarparu cymorth proffesiynol ar gyfer iaith arwyddion Credai'r pwyllgor mai dyma'r cais cyntaf o'i fath i'w gyflwyno i Gyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer cynorthwyo pobl ag anawsterau clywed. Fel hyrwyddwr cyfle cyfartal, roedd y pwyllgor o'r farn y dylid cefnogi'r cais. Credai'r pwyllgor y byddai'n elwa ar ganfod llwyddiant defnyddio cymorth iaith arwyddion, yn benodol lle byddai hyn yn cynyddu maint y gynulleidfa. Ystyriwyd hefyd y defnydd o gymorth iaith arwyddion mewn digwyddiadau yn y dyfodol, a chyllid grant ychwanegol.



	ARGYMHELLWYD bod grant o £1,000.00 yn cael ei roi i Ostreme Players er mwyn darparu cymorth iaith arwyddion proffesiynol, yn amodol ar y ceisydd yn darparu adborth ar lwyddiant y defnydd o gymorth iaith arwyddion, yn benodol nifer y bobl a oedd yn elwa o'r cymorth a ddarperir. O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig
FI2606-15	Pennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol Oherwydd gwrthdaro o ran ymrwymadau ar gyfer aelodau'r pwyllgor a fyddai'n dod i gyfarfodydd ar nos Fawrth, cynigiwyd amser arall. ARGYMHELLWYD cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd yn y dyfodol ar ail nos lau y mis am 6.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.01pm

Y cyfarfod nesaf: 9 Gorffennaf 2026